

Sul y Cofio

Darlleniad 1: Salm 46

Darlleniad 2: Mathew 5: 1-12

O! Dduw, ein Tad tragwyddol, plygwn yn ddwys a difrifol gan geisio cynnal gwasanaeth o ddiolch i ti ar y Sul arbennig hwn, sef Sul y Cofio, gwasanaeth a fydd yn cael ei gynnal ym mhob rhan o'r byd. Yng nghalonnau a meddyliau cynifer bydd erchyllterau rhyfel yn dwyn atgofion trist a chreulon, fel mae Bardd y Gadair Ddu, Hedd Wyn, yn ein hatgoffa:

‘Gwae fi fy myw mewn oes mor ddreng;
A Duw ar drai ar orwel pell;
O'i ôl mae dyn, yn deyrn a gwreng,
Yn codi ei awdurdod bell.’

O! Dduw trugarog a graslon, rydym yn cydnabod gan gyffesu ger dy fron y dydd heddiw y drygioni sydd wedi creithio ein calonnau am byth gan oferedd hunanol a thwyll. Crwydrasom oddi ar ffordd cyfiawnder a heddwch. Nid ydym yn deilwng o'th bresenoldeb hardd di, nac yn haeddu gwrandawriad, na'n cynnal mewn gwasanaeth coffa. Ystyriwn yn ddifrifol y galar a'r hiraeth am y rhai a gollwyd mewn ing a phoen, y rhai sy'n gorwedd mewn pridd dieithr mewn gwlad estron. Gwŷr a merched ifainc, yn blant tyner, yn bobl, yn feibion a merched, yn dadau a mamau tirion, eu gwaed wedi llifo'n ofer ar dir a môr. Canys heddiw mae gwledydd yn dal i fyw dan ormes trais a sŵn bomiau rhyfel. Disgyn wnaethant fel blodau, drwy gael eu torri ymaith ac yna wywo. Nid ydym yn deilwng o'u haberth a'u dioddefaint. Y cyfan allwn ni ei wneud yw eiriol am faddeuant a thrugaredd wrth dy draed.

Diolch, O! Dduw ein Tad, am i ni gael cofio a rhannu heddiw brofiad y Salmydd:

‘Y mae Duw yn noddfa ac yn nerth i ni, yn gymorth parod mewn cyfyngder ... y mae'r Arglwydd yn gweithredu cyfiawnder a barn i'r holl rai gorthrymedig ... Trugarog a graslon yw'r Arglwydd, araf i ddigio a llawn ffyddlondeb.’

Pwyso'n drwm ydym heddiw ar dy drugaredd; nid ydym deilwng o aberth y rhai a gollwyd. Cyfaddef ydym ein bod mor araf i ddysgu, mor barod i wylltio, i ymladd ac i ladd o hyd. Rydym wedi camddefnyddio - yn wir, rydym yn dal i gamddefnyddio - ein rhyddid a'n hawliau. Pechasom i'th erbyn gan fyw'n ofer a hunanol, a hynny er cymaint yr wyt ti wedi ei roi inni. Helpa ni drwy gyfrwng ein gwasanaeth i gofio am yr aberth mawr un prynhawn ar Ben Calfaria. Yn sŵn y geiriau, arwain ein meddyliau yn edifeiriol at y Groes:

‘I Galfaria trof fy wyneb,
Ar Galfaria gwyn fy myd!
Y mae gras ac anfarwoldeb
Yn diferu drosto'i gyd:
Pen Calfaria,
Yno f'enaid gwna dy nyth.’

Wrth olrhain hanes creulon y ddynoliaeth, gwna ni heddiw'n wir edifeiriol. Helpa ni drwy dy ras i'n rhoi ein hunain o'r newydd i wasanaeth Tywysog Tangnefedd. Defnyddia ni'n gyfrwng yn dy law i ledaenu'r efengyl - ‘Efengyl tangnefedd, O! rhed dros y byd.’

Rhodddwn ein diolch a'n mawl i ti, O! Dad, wrth i ni gael y fraint o gofio'r rhai a gollwyd, a hefyd gyflwyno rhai yn eu colled a'u hiraeth. Canmolwn di am mai ti yw ‘Tad yr amddifad, a Barnwr y gweddwon’. Diolch am i ti fod yn barod i gynnal mor gadarn heddiw y rhai sy'n ceisio ennill heddwch a chyfiawnder yn y byd. Bendithia drwy dy Ysbryd Glân y rhai sy'n ceisio cyfamod a heddwch rhwng holl wledydd y byd. Rho dy allu a'th ddoethineb i holl arweinyddion y byd fel y gallant un ac oll wrando ar dy lais a'th gyngor. Hollalluog a thragwyddol Dduw, yr hwn wyt yn breswylfa i ni ym mhob cenhedlaeth, caniatâ i ni, wrth gofio, gofio dy dosturiaethau di, a'u cyflwyno mewn cariad a chydymdeimlad llwyr drwy dy Eglwys. Cyflwynwn ein diolch a'n deisyfiadau. Cyflwynwn ein hunain yn llwyr i'th wasanaeth. Pâr inni rodio llwybr cyfiawnder a thangnefedd trwy Iesu Grist ein Harglwydd a'n Gwardwr. Amen.

Dewi Morris